'Rydym yn ddyledus i Awdurdodau Lleol a Mudiadau Gwirfoddol drwy Gymru gyfan am eu cefnogaeth i'r Wythnos, ac am y cyhoeddusrwydd yn y Wasg ac yn arbennig i'r B.B.C. am ei garedigrwydd yn rhoi sylw i Les yr Hen Bobl mewn dim llai nag un-ar-ddeg o raglenni teledu a sain yn ystod yr wythnos.

Mae wythnos yr Hen Bobl yn sefydliad ynddo'i hun bellach yng Nghymru, ac ymhob ardal bron yn ystod wythnos gynaf Hydref rhoddir gwledd i'r hen bobl sy'n gallu mynd i wahanol bethau, ac hefyd ymwelir ar hen sy'n rhwym i'w tai, ac mewn Cartrefi Hen Bobl ac Ysbytai. Mae'n bwysig, fodd bynnag, i



---

beidio ag ystyried yr wythnos fel rhywbeth sy'n gorffen mewn saith diwrnod. Dylid edrych arni fel wythnos a neilltuwyd i gyfarch yr Hen Bobl aci symbylu pawb sy'n ymddiddori yn eu lles i ddal ati i gyfrannu at eu hapusrwydd yn ystod wythnosau eraill y flwyddyn.

Cynhelir wythnos yr Hen Bobl yn 1961 o'r cyntaf i'r seithfed o Hydref, a bydd posteri'r Bwrdd Iechyd a gyhoeddir gan y Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog, i'w cael i'w dosbarthu led-led Cymru. Gyda'r cynnydd cyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn nifer yr henoed, teimlir ei bod yn ddyletswydd at bob un ohonom wneud ein rhan i sicrhau hapusrwydd yr henoed. 'Rydym yn gwerthfawrogi'r datblygiad nodedig a wnaed yn ystod y blynyddedd diweddar gan y Cynghorau Sir yng Nghymru mewn darparu Cartrefi Hen Bobl, ac am y gofal ardderchog o'r hen bobl yn y cartrefi hyn. Ar yr un amser "does unman yn debyg i gartref," a dyma fydd thema Wythnos Hen Bobl 1961—Helpwch Hen Bobl i Fyw'n Gyfforddus yn eu Cartrefi eu Hunain, drwy ymweld yn gyson a hwy rhag iddynt fod yn unig a rhoi Help Llaw iddynt gyda'u gorchwyllion Beunyddiol.

Os yn bosibl mae'r Cyngor yn bwriadu penodi swyddog amser-llawn i hyrwyddo gwaith cyd-gysylltiol y Cyrif Gwirfoddol a Chyfreithiol, i gymell ymdrechion mwy egniol er lles yr henoed yng Nghymru a chreu cyfleusterau i fwy o weithwyr gwirfoddol gael eu hyfforddi yn y gwaith hwn.

Yn ystod y flwyddyn bu ein swyddog yn cynrychioli Cymru ar Gyngor Cenedlaethol Lles yr Hen Bobl a'i bwyllgonau, a mynychodd Gyrsiau Hyfforddi i Ysgrifenyddion Rhanbarthol a Threfnwyr. Mae wedi cynorthwyo gyda chwrs adnewyddu i Brif Weinyddesau a Wardeniaid Cartrefi Hen Bobl a gynhaliwyd yng Nghymru, ac mae wedi cynorthwyo pobl a oedd yn awyddus i gael hyfforddiant yn y gwaith hwn. Ac yn olaf, cafodd y fraint o gynghori a chynorthwyo hen bobl gyda'u problemau personol.

## CLYBIAU MERCHED

Mrs. M. Liedke

Daeth Clybiau Merched i fodolaeth yn gynnar yn y tridegau, ac er eu ffurfio i liniaru effaith cyfnod hir o ddiweithdra yn yr ardaloedd diwydiannol, darparant ffordd ymarfêrol i wragedd y diwaith, geisio datrys rhai o'u hanawsterau eu hunain, ac hefyd i greu diddordebau newydd i'r merched.

Er y dyddiau hynny, y mae'r clybiau wedi datblygu yn fawr yn ôl gofynion yr ardal, nes eu bod heddiw yn rhan weithgar a bywiog o'r gymdeithas, yn asio i batrwm datblygiad mewn meysydd addysg anffurfiol.

Y mae 108 o glybiau, gyda thua 3,500 o aelodau, a chyda'r gweithwyr canlynol—6 o hyfforddwyr amser-llawn (gwaith Llaw a Choginio); 8 o hyfforddwyr rhan-amser; 3 o drefnwyr amser llawn, ac un ferch yn Brif-Swyddog.

Caiff y clybiau yma eu gwasanaethu bob wythnos. Nifer o oriau ar gyfer hyfforddi bob wythnos—140. Nifer o aelodau yn bresennol yn y dosbarthiadau wythnosol—tua 2,500.

Yn ychwanegol at a dosbarthiadau Gwaith Llaw a Chadw Ty, mae'r rhaglenni yn cynnwys darithoedd a filmiau; siaradwyr ar Lywodraeth Leol; siaradwyr o'r Byrddau Trydan, Cyngor Tanwydd Crai, Pencadlys yr Heddlu;

---

Swyddogion Lles (gofal o'r Dall, Rhai Gwan eu Meddwl, Cartrefi Drwg-weithredwyr) ac mae amryw o Ymwelwyr Iechyd wedi annerch y Clybiau.

Cynhelir dosbarthiadau "Cadw'n Heini" bob bythefnos yn Margam a Phenylai i hyfforddi arweinyddion i ymweld a grwpiau eraill yn eu hardaloedd. Y mae dosbarthiadau felly wedi dechrau yng Nghwmgwrach a Glynedd. Hyfforddir arweinyddion hefyd mewn gweithgareddau eraill e.e. gwaith llaw, gwaith cartref, gwaith gwcinnyddu clybiau, ac y maent yn profi eu hunain yn werthfawr iawn mewn gwasanaeth i'r clybiau.

Anogir arweinyddion hefyd i fynd i gyrsiau yn Ysgol Haf y Barri, a drefnir gan Bwyllgor Addysg Morgannwg, er mwyn ennill cymhwysterau ychwanegol.

Ni ellir gor-bwysleisio'r pwysigrwydd o gael y math iawn o athro i'r math yma o waith oherwydd gofynion amrywiol y Clybiau—y teithio i wahannol fannau cyfarfod, y gwahaniaeth yn oedran aelodau'r clybiau—rhaid ystyried pob un o'r elfennau yma.

Y mae'r rhyfel wedi gadael ei ôl yn fawr ar y clybiau yma. Agorwyd hwy i bob aelod o'r gymdeithas a dalient i lwyddo er i lawer o'r aelodau fynd i ddiwydiant, ac effeithiodd hyn yn raddol ar yr aelodaeth. Yna daeth merched ifainc priod i'r mudiad a gwelwyd yr angen am agor clybiau newydd ar ystadau tai, lle'n fynych y symudir pobl ifainc o hen ardaloedd sefyldig gyda'u traddodiadau.

Y mae'r clybiau felly yn darparu cyfleusterau addas i gyfathrachu'n gymdeithasol, ac yn gyfrwng i beri i drigolion yr ardaloedd newydd ddod i nabod eu gilydd.

Gydag aelodaeth o rhwng 3,000 a 4,000, y mae'n llawer annoddach cael hyd i fannau cyfarfod, a mae ein clybiau wedi cael cartref mewn Ysgolion, Festrioedd, Ystafelloedd hotels, Neuaddau Lles y Gweithwyr a Neuaddau'r Gwasanaeth Cymdeithasol, neu mewn unrhyw fan arall addas yn y gymdogaeth. Mae Merched Ynysydaren yn ardal Ystalyfera, a oedd yn cyfardod ar y cychwyn cynta mewn cwt gwylwr tan, wedi sicrhau neuadd iddyn' nhw eu hunain, drwy hel arian. Ac mae Ynysymond yn cael defnyddio hen glwb y Sgowntiaid ac yn ei addasu iddyn' eu hunain. Mae era'll yn cyfarfod mewn Neuaddau Hen Bobl, ac yn bod o fudd mawr i'r hen bobl. Mae Sandfields, Taibach a Glynedd yn engreiffiau nodedig, tra mae aelodau Seven Sisters yn gwneud ymdrech arbennig i gasglu arian i adeiladu Neuadd Hen Bobl, a hyd yma maent wedi hel dros £1,300.

### Gwaith Elusengar

Mae Clybiau'r Merched yn ymateb yn frwdfrydig iawn i unrhyw apel am elusen, a nhw yn fynych yw canolfan unrhyw apel yn eu hardaloedd. Penclawdd yn rhoi sbri bob blwyddyn i gant o hen bobl Glan-y-Mor, Penmaen; Tregwyr gyda'i help i'r amddifaid a Seven Sisters yn trefnu rhyw fath o adloniant i'r Deillion a'r Hen Bobl.

Mae Ysbryd gwasanaeth i eraill yn un o nodweddion cryfaf bywyd clwb, a cheir aelodau'r clybiau ar bob pwyllgor elusen yn eu cymdogaeth.

## Gweithgareddau Arbennig y Flwyddyn

Mae'n amhosibl son am yr holl weithgareddau arbennig a drefnwyd gan bobl clwb yn ystod y flwyddyn. Trefnodd pob un ei batrwm arbennig ar gyfer gofynion yr aelodau, ond mae'r digwyddiadau blynyddol, a amlinellir islaw—y cyfarfodydd sy'n dod a'r holl-glybiau at ei gilydd—yn cael eu cynnal mewn gwahannol ganolfannau yn y thanbarth.

### Cwrs Hyfforddi i Arweinwyr

Yn ddiweddar cynhaliwyd Cwrs Hyfforddi Preswyl llwyddiannus iawn yn Kilvrough Manor, Bro Gwyr, pan ddaeth 46 o aelodau i Gwrs Gweinyddu Clybiau. Y siaradwyr oedd—Miss B. B. Bryant, H.M.L., o'r Weinyddiaeth Addysg yn Llundain; Miss E. M. Davies, H.M.L., Adran Gymreig y Weinyddiaeth Addysg a Mrs. Norah Phillips, Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas Genedlaethol Clybiau'r Merched.

### Y Gynhadledd Flynyddol

Mae'r clybiau wedi ffurfio Cymdeithas Gymreig o Glybiau'r Merched sydd ynghlwm wrth Gymdeithas Genedlaethol y Clybiau Merched. Mae gan y ddwy eu cynhadleddau blynyddol gyda 30 o gynrychiolwyr o Gymru yn y Gynhadledd Genedlaethol.

Trafodir y penderfyniadau o'r gwahannol glybiau, ac y mae rheiny o ddiddordeb Cenedlaethol yn cael eu trafod ar lefel Genedlaethol.

Y siaradwyr gwadd yn y Gynhadledd ddiwethaf oedd—Mr. Evan Davies, Swyddog Gwaith Adranol yn Adran Awdurdod Addysg Lleol Castell Nedd, Morgannwg; Mr. Ieuan O. Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ac Ysgrifennydd Cyngor Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru a Mynwy. "Addysg a Bywyd Teuluol" oedd thema'r gynhadledd.

### Arddangosfeydd

Trefnwyd i arddangos gwaith yr aelodau yn Wenfo, Penybont-ar-Ogwr, Pontypridd ac mewn Diwrnod Agored a Rali yn Fferm Arbrolf Tregoes, Pencoed. Hefyd mewn cysylltiad a'r Arddangosiadau Diwydiannau Gwledig yng Nghaerdydd. Dangoswyd diddordeb mawr yn yr arddangosfeydd hyn.

### Drama a Cherddoriaeth

Llwyfanwyd Drama'r Pasg gan aelodau Clybiau Gorllewin Morgannwg yn Ysgol Sandfields, Port Talbot, a bu Gwasanaeth Carolau llwyddiannus iawn yn Llangeinor yn ystod Wythnos y Nadolig.

### Eisteddfod

Adnewyddwyd Eisteddfod Clybiau'r Merched yn ddiweddar ar ol seibiant o bum mlynedd. Ac yr oedd brwdfrydedd yr aelodau yn y gweithgarwch hwn i'w weld yn amlwg yn y nifer a ddaeth i'r eisteddfod i Borthcawl ar ddiwrnod gwlyb iawn. Roedd y Neuadd Fach a'r Neuadd Fawr yn orlawn gyda chystad-leuwyr ac ymwelwyr trwy gydol y dydd.

Cadwyd y beirniaid yn eithriadol o brysur ac nid gwaith hawdd oedd dewis y goreuon yn y cystadlaethau a oedd o safon uchel. Dangosodd yr eisteddfod fod crefftwaith yn dal yn rhan hanfodol o fywyd gwaig y ty heddiw.

---

Daeth hefyd amryw o gystadleuwyr at y llwyfan, a chadwyd yr arweinydd, Mr. E. C. Bilson yn brysus drwy'r dydd. Cafwyd yr uchafbwynt pan gyhoeddwyd enw'r tim buddugol—Tim Tregwyr—a enillodd fwyaf o farciau gyda Bryntrion a Chaerfili yn dynn wrth eu sodlau.

Y cadeirydd oedd Mrs. Jennie Jenkins, Y.H. Sciwen, Cadeirydd y Gymdeithas Gymreig a Chymdeithas Genedlaethol Clybiau'r Merched.

Pery Raliau yn boblogaidd iawn, a denant rhwng 100 a 250 o aelodau o glybiau eraill yn y gymdogaeth, a dangosir llawer o dalent yn y gwahanol eitemau.

### **Ysgolion Undydd**

Trefnir rhain yn fynnych i ddysgu gwneuthur Bwydydd Pasg, gwinoedd, dilladau, potelu ffrwythau ac addurno teisenau.

### **Teithiau**

Trefnwyd teithiau i Draethau De Lloegr, yr Alban ac Ardaloedd y Llynoedd. Bob yn ail flwyddyn trefnir teithiau ar y cyfandir.

### **Cydwethredu a Mudiadau Eraill**

Cymerwn ran amlwg yng ngwaith cymdeithasau eraill, a chynrychiolir Clybiau at y Sefydliad Safonau Prydeinig; y Cyngor Defnyddio Glo; Cynhadledd Mudiad y Merched, Is-Bwyllgor Merched y Weinyddiaeth Lafur a Phwyllgorau Lles yr Hen Bobl. Dyr y aelodau wasanaeth hefyd ar Gynghorau Plwy, ac mewn Llywodraeth Leol ac ar Fainc Ustusaid Heddwch.

Mynych elwir ar staff y cyngor i roi sgysiau neu i ddangos, ac fel beirniaid i fudiadau eraill, e.e. Sefydliad y Merched, Urdd y Merched Trefol, Clybiau'r Ffermwyr Ieuaine etc.

### **Efrydwy'r Tramor**

Croesewir efrydwy'r tramor bob amser yn y clybiau, lle cant wybodaeth werthfawr am drefnu a gweinyddu a fydd yn fuddiol iddynt pan ddychwelant adref.

### **Cyfarfod Arbennig**

Yn ddiweddar bu cyfarfod o gryn ddi-ddordeb ym Mhorthcawl pan wahoddwyd bron 300 o'r aelodau sylfaenol i gyfarfod ei gilydd. Cyfiwynwyd rhoddion o grochenwaith Cymreig iddynt i gofio'r achlysur. Dyma'r bobl a osododd sylfaeni Mudiad y Merched ac mae llawer ohony'n nhw yn aelodau gweithgar yn y clybiau.

Cyn terfynu, rhaid i ni ddiolch i Bwyllgorau Addysg Morgannwg a Chaerfryddin am eu help ymarferol a'u cydweithrediad i wneud y gwaith hwn yn bosibl, hefyd i Gyfarwyddwr a staff Cyngor y Gwasanaeth Cymdeithasol sydd wedi ein cefnogi mor drylyw yn ein hymdrechion.

## Clybiau'r Dynion

Oddiar sefydlu Clybiau'r Dynion yn ystod y Dirwasgiad Diwydiannol, mae nifer y clybiau gweithgar a blodeuog wedi lleihau'n fawr dros y blynyddoedd. Yn yr ychydig glybiau sydd ar ol deil gwaith coed a rhoi gorchudd ar gelfi yn brif weithgarwch. Ac mae safon y gwaith yn uchel eithriadol a gwobrwywyd llawer i aelod mewn arddangosfeydd lleol.

Rhoddir hyfforddiant gan hyfforddwyr rhan-amser yn cael eu talu gan y Cyngor. Ac yn ychwanegol, goruchwylir holl weithgareddau'r clybiau gan staff y Brif Swyddfa.

## CANOLFANAU AC UNDEBAU CYMDEITHASOL

Mrs. M. Liedke

Ymddengys fod gofyn'ion cymdeithasol yng Nghymru yn fwy ar ystadau tai newydd nag mewn ardaloedd eraill. Yn yr hen ardaloedd mae'r gwahannol neaddau sy'n ganolfannau amryfal weithgarwch a chyfarfodydd, i raddau helaeth yn digroni anghenion y bobl.

Ar ystad dai newydd, mae diffyg y manau cyfarfod hyn yn nodweddiadol, ac nid anrodd yw gwerthfawrogi gwerth canolfan Gymdeithasol fel canolbwynt. Ar y dechrau pan fo'r trigolion yn ddeithriaid i'r naill ar llall, yr angen mawr yw meithrin cymdogaeth dda a chyfeillgarwch. Teimlir yr angen am weithgarwch cymdeithasol lle na bo cyfusterau adloniant o'r tu fewn neu'r tu allan. Canlyniad hyn yw ffurfio Cymdeithas Denantiaid neu Undebau Cymdeithasol i ddelio ar problemau cyffredin a gyfyd o'r gofynion ar yr ystadau hyn, e.e. gwasanaeth bysus, meysydd chwarae i blant, gwibdeithiau etc.

Y cam cyntaf a gymer llawer i gymdogaeth newydd yw ffurfio pwyllgorau arbennig i drefnu gweithgarwch lleol neu ddathliadau. Ar rhain ar ben, mae'r pwyllgor yn barod i barhau gyda'i weithgarwch er lles y gymdogaeth. Yn olaf gweithient i ddarparu man cyfarfod neu Ganolfan Gymdeithasol lle gall y gwahanol grwpiau a mudiadau gyfarfod. Ni ellir gwneud y gwaith hwn heb gydweithredu'n agos a'r Awdurdod Addysg Lleol ac awdurdodau lleol eraill sy'n gallu helpu mewn amryfal ffyrdd.

Gwnaed cynnydd cyflym yn y cyfeiriad hwn yng Nghymru oddiar 1948, pan nad oedd ond ychydig iawn o Ganolfannau Cymdeithasol addas. Yr oedd Sant Thomas, Abertawe a Bonynnaen, Abertawe, ymhlith y rhai cyntaf. Dilynwyd y rhain yn fuan gan Aberbargoed, Rhigos, Brynawr, Trefbute a Dolgellau. Ceir ar hyn o bryd tua 30 o Ganolfannau Cymdeithasol gweithgar, gyda bron ddwywaith y nifer yma o Undebau Cymdeithasol.

Adeiledir neu darparir y canolfannau hyn mewn amrywiol ffyrdd e.e.

(1) Drwy symud i mewn i adeiladau fel Llys Llandaf, Canolfan Trefedigaethol Trefbute; Ysgol Llwynhendy; Ysgol Ddiwydiannol Bonynnaen (Canolfannau Awdurdod Addysg Lleol).

(2) Drwy newid neu addasu adeiladau—Llanfair ym Muallt, Ynystawe; Ffynnon Taf (garej a sinema wedi eu haddasu), Sandfields.

(3) Adeiladau Newydd—Margam (Adeilad Nissen); Sant Thomas: Aberbargoed, Town Hill (Abertawe), West Cross (Abertawe); Cimla (Castell Nedd)

---

(4) Canolfannau Cymdeithasol Ysgolion Newydd—Abermule a Threvern. Canolfannau eraill sy'n cael eu codi ar hyn o bryd neu'n disgwyl cael grantiau—West Ward (mae'r awdurdod lleol eisoes wedi codi cnewyllun yr adeilad); Margam (lle codir adeilad newydd ar bwys yr hen un; Ffynnon Taf (gwneir yr hen adeilad a addaswyd yn adeilad sefydlog, drwy godi wal frics yn lle'r adeiladwaith presennol ac addesir garej yn neuadd fechan ychwanegol); Goytre (codwyd adeilad newydd gyda chymorth grantiau y Weinyddiaeth Addysg a help Awdurdodau Lleol, ynghyd a llafur gwirfoddol).

## DATBLYGIADAU'R DYFODOL

### Datblygiadau'r Dyfodol

Datblygir cynlluniau newydd yn Sandfields, Port Talbot, Baglan, Croeserw, Cymmer a Gorllewin Pontnewydd (mae'r gwaith ar yr olaf eisoes wedi dechrau), Llanrhymni a Gatabfa.

Mae'r gweithgareddau yn y canolfannau hyn yn cynnwys darlithoedd, dosbarthiadau nos, chwaraeon, dosbarthiadau cadw'n heini, Grwpiau Ieuenctid, Dosbarthiadau Merched mewn Gwaith Llaw a gwaith ty, etc. Mae'r gwasanaethau eraill o'r gymdogaeth yn cynnwys teledu, cyffeusterau cantin, ac ystafelloedd i gyfarfodydd, partion priodasau, etc.

Trefnwyd cynhadleddau i ddod a'r Cymdeithasau a'r Canolfannau at ei gilydd—yng Nghaerdydd (ar gyfer y Dwyrain), a Margam (ar gyfer y Gorllewin). Yn dilyn hyn cafwyd cynhadledd unedig yng Nghaerdydd ar Chwefror y 25ed a gwelwyd cynnydd eithriadol yng nghynrychiolaeth y canolfannau a'r undebau cymdeithasol.

Y cam nesaf fydd trefniant cyffelyb i Ogledd Cymru, gyda chynhadledd i Gymru gyfan yn dilyn. Yn ddiweddar bu symudiad pendant tuag at ffurfio Ffederasiwn Gymreig o Ganol—fannau ac Undebau Cymdeithasol, i gyd-gysylltu Cymdeithasau gyda phroblemau a diddordebau cyffelyb.

Efallai mai breuddwyd yw hyn, ond mae'r angen am berthyn i Gorff Genedlaethol yn amlwg. Tra mae rhai Undebau yn awr yn perthyn yn uniongyrchol i Ffederasiwn Genedlaethol yr Undebau Cymdeithasol, teimlir y bydda yn fwy effeithiol hyn drwy Ffederasiwn Gymreig. Gallai Ffederasiwn Gymreig hyrwyddo materion mwy difrifol fel:—(1) Cyrsiau Hysfoddi i Wardeniaid ac Arweinwyr Gwirfoddol, (2) Cynhadleddau Preswyl i holl aelodau a diddordeb ganddynt. (3) Cysylltu Undebau Gwirfoddol a Chyfreithiol. Gallai'r cynlluniau hyn, a rhai tebyg iddynt fod yn nod i Ffederasiwn o Ganolfannau ac Undebau yng Nghymru.

Mae'r Swyddog Cymdeithasol yn awr yn ymwneud a chynlluniau hen a newydd sy'n cael eu datblygu, fel:—

*Undeb West Ward, Penybont ar Ogor:* Canolfan Gymdeithasol ar hanner ei datblygu, y mae ei haelodau'n gobeithio ei chwblhau. Erbyn hyn fe'i cyflwynwyd i'r Undeb yn rhodd gan yr Awdurdod Lleol, ac fe'i cwblheir gyda chymorth grant, o'r Weinyddiaeth Addysg ac ymdrechion lleol.

*Canolfan Gymdeithasol Margam:* Adeilidir Canolfan newydd getlaw yr un presennol, sydd mewn cylwr drwg. Gwnaed cais am grant i'r Weinyddiaeth Addysg.

---

*Canolfan Gymdeithasol Ffynnon Taf:* Newid a chynhaliath. Gwnaed ceisiadau am grantiau.

*Sandfields, Port Talbot:* Datblygu Canolfan Gymdeithasol newydd. *Llan-giwg, Ystalyfera:* Canolfan Gymdeithasol newydd Arfaethedig.

*Canolfan Gymdeithasol Maipas:* Ceisr caniatad i addasu a helaethu y Ganolfan Gymdeithasol bresennol.

*Gorllewin Pontnewydd:* Derbynwyd grant tuag at Ganolfan Gymdeithasol.

*Casgwent:* Symudiad gan Toc H i ffurfio Undeb Cymdeithasol newydd.

*Canolfan Gymdeithasol Rhiwbina:* Helaethu'r adeiladau presennol.

*Cynhaliath y Canolfannau:* Mae'r cwestiwn o gadw a chynnal yr adeiladau yn dal yn broblem fawr i lawer Pwyllgor, a rhaid darganfod gwahannol ffurfiau a dulliau (rhai heb fod mor gyfansoddiadol) i sicrhau fod y neuaddau mewn cyflwr da.

Eleni trefnoedd y Ffederasiwn Genedlaethol Wythnos Gymdeithasol Genedlaethol a chyfranodd nifer o Undebau Cymreig raglenni diddorol.

Bu cyswllt agos a Ffederasiwn Genedlaethol yr Undebau Cymdeithasol a bu cynrychiolwyr o Gymru mewn Cynadleddau Rhanbarthol.

Rhydd Swyddog Cymdeithasol y Cyngor gymoth a chyngot i ddatblygu'r gwaith yng Nghymru, drwy ymweld a Chanolfannau ac Undebau Cymdeithasol.

## ADRAN IEUENCTID

Mrs. R. Williams

### Y Gynhadledd Sefydlog Tros Gymru o Fudiadau Ieuentid Gwirfoddol

Am flynnyddoedd gweinyddwyd ysgrifenyddiaeth y Gynhadledd Sefydlog Tros Gymru o Fudiadau Ieuentid Gwirfoddol gan y Cyngor hwn. Bu Llywydd y Cyngor, yr Anrhydeddus J. H. Bruce, C.B.E., D.L., T.H., yn gadeirydd y Gynhadledd Sefydlog am nifer o flynnyddoedd a'i ysbrydiaeth ef yn fwyaf arbennig sydd yn gyfrifol am gydweithrediad saith ar ugain o Fudiadau Ieuentid Gwirfoddol yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn cynhalicdd y Gynhadledd Sefydlog deuddeg o bwyllgorau sef y Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol; y Cyfarfod Hanner Blynnyddol; Cynhadledd Breswyl yng Nglan-y-Mor, Barri; Pwyllgor Undebol o gorfforaeth wirfoddol a sefydlog swyddogion addysg bellach, swyddogion ieuentid a chynrychiolydd y Cydbwyllgor Addysg Cymreig. Cyfarfu'r pwyllgor gwaith seithwaith a'r pwyllgor cyllid unwaith.

Ar ol cyhoeddi Adroddiad Albermarle disgwyliad adfywiad diddordeb yng ngwaith ieuentid ymysg mudiadau gwirfoddol. Cyfawnhawyd y ddamcaniaeth yma yn ystod y flwyddyn.

Am y tro cynta' rhoddwyd cymorthdal gan y Weinyddiaeth Addysg tuag at waith y Gynhadledd Sefydlog Tros Gymru o Fudiadau Ieuentid Gwirfoddol at amcanion gweinyddol, cynhadleddu, a sefydlu cynhadleddau Rhanbarthol Sefydlog trwy'r wlad. Yng ngoleuni y datblygiad newydd yma sefydlwyd adran ieuentid gan y Cyngor yn Nhachwedd 1960. Pwrpas sefydlu adran

---

leucentid yw mabwysiadu awgrymiadau o adroddiad Albermarle y dylasid cael mwy o gydweithrediad thwng gwaith y Mudiadau Sefydlog a'r Mudiadau Ieucentid Gwirfoddol. Cydnabyddodd y pwyllgor fod hyn yn agwedd bwysig o wasanaeth gymdeithasol a theimlent yn gyfiawn wrth wario rhan o'r adnoddau, i hyrwyddo cymorthdal y Weinyddiaeth i sicrhau adfywiad yng ngwaith y Gynhadledd Sefydlog Tros Gymru o Fudiadau Ieucentid Gwirfoddol i gwrrd a'r diddordeb adfywiol yng ngwaith leucentid.

Yn ystod misoedd cyntaf 1961 cynhaliwyd pump pwyllgor mewn gwahanol rannau o Gymru, gyda'r amcan o sefydlu Cynhadleddau Rhanbarthol o'r Gynhadledd Sefydlog Tros Gymru o Fudiadau Ieucentid Gwirfoddol. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o sefydliadau gwirfoddol yn y rhanbarth i gyfarfod a'u gilydd, ynghyd a chynrychiolwyr o Awdurdodau Addysg Lleol. O ganlyniad, ffurfiwyd pedair Cynhadledd Rhanbarthol Cydsyniodd y bumed sef Canolbarth Cymru (Maclafed, Brycheinion, Trefaldwyn) a'r egwyddor o sefydlu Cynhadleddau Rhanbarthol, ond oherwydd anhawsterau daerddedol a theithio, penderfynwyd yn erbyn sefydlu cynhadledd yn y rhanbarth yma.

Sefydlwyd y Cynhadleddau Rhanbartho, canlynol:

- (1) Gwynedd (Mon., Arfon, Meirion). Yn y rhanbarth yma cytynwyd ar gyfansoddiad a threfniadau ar gyfer cynhadleddau yn y gaeaf 1961/62. Y cadeirydd yw Mr. Aled Eames, M.A. Prifysgol Bangor; Is Gadeirydd Mrs. Flower, Cricceieth.

Yr oedd deg ar hugain o gynrychiolwyr mudiadau yn y rhanbarth yn bresennol yn y cyfarfod agoriadol yma.

- (2) Dyfed (Aberteifi, Caerfyrddin, Penfro).

Cynhaliwyd dau gyfarfod hyd yn hyn. Y cadeirydd dros dro yn y rhanbarth yma yw Mr. Cecil Williams, F.H., Llanelli. Mabwysiadwyd cyfansoddiad, ac ystyrir y trefniadau ar gyfer y gynhadledd. Yr oedd pedwar deg a dau o gynrychiolwyr yn bresennol yn y cyfarfod agoriadol.

- (3) Dwyrain De Cymru (Morgannwg, Mynwy, Caerdydd, Abertawe, Casnewydd, Bwrdeisdref Sirol Merthyr Tydfil a Chylch Rhondda). Cynhaliwyd dau gyfarfod archwyladol a mabwysiadwyd cyfansoddiad. Yn y cyfarfod agoriadol yr oedd hanner cant o gynrychiolwyr yn bresennol. Apwyntiwyd y swyddogion canlynol.

Cadeirydd: Mrs. T. J. Webley.

Ysgrifennydd: Mr. W. J. Pate, O.B.E., F.H.

Trysorydd: Mrs. Caulfield Giles.

4. Gogledd Dwyrain Gymru (Fflint a Dinbych).

Cynhaliwyd yn cyfarfod. Yn ychwanegol mabwysiadwyd cyfansoddiad. Y cadeirydd yw Mr. P. J. Clarke a'r Ysgrifennydd yw Mr. Trefor Roberts.

Hyderir y bydd sefydlu'r Cynhadleddau Rhanbarthol yma yn garreg filltir yn hanes gwaith gwirfoddol leucentid yng Nghymru. Amlinellir natur y gwaith sy'n bosibl i'r Cynhadleddau yma wneud mewn cofnodiad a rhoddwyd iddynt. Cynnwysa'r cofnodiad yr awgrymiadau ymarferol canlynol.

- (1) I dafu cipdrem ar ran y Sefydliadau Ieucentid Gwirfoddol o fwen y rhanbarth. Unrhyw beth sy'n berthynol iddynt oil, ddylasai ddod o



---

fewn ei gweinyddiad e.e. dehongliad polisi'r Weinyddiaeth, a'r cyfleusterau a estynnir gan yr Awdurdod Addysg Lleol.

- (2) I gynghori (pan yn angenrheidiol) cynrychiolwyr y Mudiadau Ieuencid Gwirfoddol ar bwyllgorau Ieuencid yr Awdurdodau Addysg.
- (3) I ystyried unrhyw fater a drosglwyddir iddynt gan y prif gorff, yn arbennig i drosglwyddo i'r corff unrhyw adwaith leol i'r awgrymiadau.
- (4) I gyfleu unrhyw syniad a phenderfyniad ar unrhyw fater y tyber y dylid dwyn i sylw y prif gorff.
- (5) I drefnu cynhadleddau undydd neu "ysgol" penwythnos o fewn y rhanbarth.
- (6) I drefnu cyrsiau hyfforddi unedig.
- (7) I weithredu fel peirianwaith rhanbarthol i ddelio a digwyddiadau neu gystadleuthau cenedlaethol a drefnir gan y prif gorff e.e. Drama, Cerddoriaeth.  
Eisteddfodau. Celf a Chrefft.  
Pel Droed. Mabolgampau.
- (8) I drefnu gwyl ddrama, cerddoriaeth, etc.
- (9) I dafu golwg ar anghenion Gwasanaeth Ieuencid o fewn y rhanbarth, ac i archwilio y datpariaethau a wneir gan yr Awdurdod Addysg, ac hefyd gan yr aelodau eu hun, gyda golwg ar "lanw'r bylchau" ac osgoi dyblygu ac ailadrodd.

Cynhaliwyd y chwechfed Gynhadledd Breswyl o'r Gynhadledd Sefydlog Tros Gymru o Fudiadau Ieuencid Gwirfoddol yn y Barri o'r 21 ain hyd y 23ain o Hydref 1960. Yr oedd y gynhadledd yma yn arbennig o bwysig, yn dwyn ynghyd pedwar ugain a deg o gynrychiolwyr yn cynrychioli y Weinyddiaeth Addysg; Awdurdodau Lleol. Y Gynhadledd Sefydlog o Fudiadau Ieuencid Gwirfoddol yng Nghymru; Y Cyd Bwyllgor Addysg Cymreig; a Chyngor Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru a Mynwy.

Thema'r Gynhadledd oedd "Partneriaeth," mewn perthynas a chymeradwyaeth Adroddiad Albermarle. Gwahoddwyd Awdurdodau Addysg yng Nghymru i anfon cynrychiolwyr i bwyllgor unedig anffurfiol gyda'r Pwyllgor Gwaith o'r Gynhadledd Sefydlog, cyn gweithrediadau arferol y Gynhadledd. Cynrychiolwyd triar ddeg o Awdurdodau Lleol.

Trwy thema'r gynhadledd cafwyd safbwynt swyddog o'r Weinyddiaeth Addysg. Mr. L. C. J. Martin, Cyfarwyddwr Addysg Mr. J. A. Davies, M.A., Sir Drefaldwyn a Swyddog Addysg Bellach Sirol Mr. B. J. Griffiths, B.A.

Agorwyd y gweithrediadau gan yr Anrhydeddus J. H. Bruce ac estynnodd groeso i bob siaradwr a chynrychiolydd i'r cyfarfod agoriadol.

Y tri chyfarfod holl bresennol oedd:—

- (1) Partneriaeth.
- (2) Partneriaeth mewn Hyfforddiant.
- (3) Partneriaeth mewn Datblygiad.

Yr oedd y trafodaethau adrannol yn agwedd bwysig o'r gynhadledd, a rhoddwyd adroddiad ar drafodaeth pob adran.

---

---

Datblygodd yn Gynhadledd Iwyddiannus, trwy i Dr. William Thomas, C.B., gloi gan ddweud " Nid yw Gwasaneth Ieucntid yn effeithiol nac yn ysbrydiaeth, ond trwy sail bartneriaeth ddiifuant, nid yn unig partneriaeth rhwng mudiadau sefydlog a gwirfoddol, ond cydweithrediad a deallwriaeth ymysg ei hunain.

Cynhelir y Seithfed Gynhadledd Flynyddol yn y Barri ar yr 20fed, yr 21ain a'r 22ain o Hydref 1961. Rhoddir yr anerchiad agoriadol gan y Gwir Anhydeddus Iarll Longford (cyn Arglwydd Pakenham).

Y Thema fydd " Gwasanaeth a Gwasanaethau."

## SWYDDFEYDD CYNGHORI DINASYDDION A LLES CYMDEITHASOL

Mrs. R. A. Williams

### Gwasanaeth Hysbysu a Chynghori

Dengys y flwyddyn 1960/61 fod yr Adran hon o'r Gwasanaeth Lles yn parhau yn rhan bwysig yn mywyd yr unigolyn a chymdogaeth. Chwyddodd nifer yr ymholiadau yn ystod y flwyddyn a nifer y problemau y deliodd ein Swyddog a hwy, drwy gysylltiadau personol, ymweliadau a theluoedd, gohebiaethau ac ymholiadau ar y ffôn.

Nid oes him unfurfiacth yn y gwaith hwn. Y mae'r gwasanaeth, o raid yn ystwyth ac ymrywiol, ac yn galw am ymdriniaeth ofalus o wahanol broblemau a gwahanol bobl. Fodd bynnag, ar y cyfan y problemau amlaf yw: Hysbysrwydd Cyffredinol; Personol a Theuluol; Bywyd Priodasol; Tai; Cyllid yr Aelwyd; Pensiynau ac Yswiriant Cenedlaethol; Prynu ar Goel; Cymorth a Chyngor Cyfreithiol; Plant Cadw; Clybiau Ieucntid etc.

### Gwasanaeth i'r Unigol

Arwahan i ymholiadau achlysurol a phroblemau bob-dydd, deliodd ein swyddog a nifer o achosion y bu angen cryn ymweliadau ac ymchwiliadau, adroddiadau a chyswllt a gwasanaethau eraill (rhai gwirfoddol a chyfreithiol) e.e. Cymdeithas Lles Teuluol, Gwasanaeth Cymdeithasol Cyd-genedlaethol Prydain; y Bwrdd Cymorth Cenedlaethol; Gwasanaeth ymfudo Bermuda (British Honduras). Rhoddwyd adroddiadau i'r gwasanaeth Cymdeithasol rhyngwladol ar ol ymchwiliadau ar achosion o Ghana, Is Almaen, Japan, Yr Almaen, America ac achosion eraill. Deliwyd ag achosion fforduriaid o Hungary, Gwlad Pwyl a'r Aifft. Rhoddwyd cymorth hefyd i swyddogion ysbytai; Cyngor Cenedlaethol y Gwasanaeth Cymdeithasol; Swyddfa Cyngori Dinasyddion yn Lloegr a Chymru a Chynghorau Gwlad.

### Cydweithredu a Mudiadau Eraill

Unwaith eto dymunwn ddatgan ein diolch am y cyswllt effeithiol rhwng ein Gwasanaeth Lles a Gwasanaethau Cymdeithasol adrannau'r Llywodraeth Nghymru. Oherwydd tylanwad amrywiol gwasanaethau cymdeithasol y wladwriaeth a'r Bywyd teuluol heddiw parodd y galw am ddechongli sut i'w gweinyddu newid cyson yn nodwedd ein gwaith. Ac am hynny sylweddolwn werth y cyswllt rhwng cyrif gwirfoddol a chyfreithiol.

### Cymorth a chyngor Cyfreithiol

Daeth y mesur sy'n estyn cymorth cyfreithiol i achosion Sifil mean llysoedd ynadon a llysoedd chwarterol i rym ar yr wythfed o Fai, 1961. Da gennym

allu cefnodi eto fod yr Adran Les a'r Swyddfeydd Cyngori Dinasyddion yng Nghymru; y Cyngor-orau Gwlad yng Nghymru; a Chymdeithas y Cyfraith yn Cydweithredu'n agos.

### Swyddfeydd Cyngori Dinasyddion Cymru

Y mae ein swyddog ar Bwyllgor Cenedlaethol Swyddfeydd Cyngori Dinasyddion ac yn cadw mewn cyswllt agos a holl wasanaethau Cymru ben baladr. Gweithreda fel swyddog cyngori a chyfathrach rhwng Gwasanaeth Canolog y Cyngor Cenedlaethol a Gwasanaethau Cymru. Yn ol ystadegau deuddeg swyddfa yn Nghymru yr oedd nifer ymholiadau'r flwyddyn yn agos i 25,600. Yr oedd y than fwyaf o'r ymholiadau o Gasnewydd, Gaerdydd ac Abertawe.

### Gwasanaethau Yngynhorol yn yr Ardaloedd Gwledig

Mae'r Cyngor Cymreig bob amser wedi cydnabod yr angen am wasanaethau ymghynhorol yn yr ardaloedd gwledig anhysbell a gwerthfawrogant y gwaith hyrwyddo a wneir gan unarddeg o Swyddogion Sirol y Cyngorau Gwlad—yn ei bencadlysoedd ac ar y maes. Dewisiwyd Ynys Mon a Sir Ddinbych i'w cynnwys yng nghynllun grantiau ymddiried—olaeth Carnegie yn y Deyrnas Gyfunol.

### Lles Cyffredinol y Plant

Ein swyddog sy'n gweinyddir gwasanaeth hwn ac yn sicrhau teuluoedd i ofalu am blant o dan nawdd cronfa achub y plant. Ymwelir a'r aelwyddyd, a a gwneir adroddiadau ar ymgymhellion yn rheolaidd.

### Cyffredin

Mae ein swyddog yn aelod o Bwyllgor Ymghynhorol Apeliadau y B.B.C. yng Nghymru.

## DRAMA

Mr. E. C. Bilson

### Llyfrgell

O'r Llyfrgell ddrama rhoddwyd benthg i Gymdeithasau, Mudiadau Drama Sirol, Colegau, amrywiol sefydliadau ac unigolion:

	<i>Copïau</i>	<i>Setiau</i>
	<i>Unigol</i>	<i>Llaw</i>
Dramau Hir . . . .	686	304
Dramau Un Act . . . .	327	150
Amrywiol . . . . .	68	—
	1,081	454

Oll yn oll benthyciwyd 763 o gyhoeddiadau—635 drwy alw amdanynt yn y llyfrgell a 128 drwy'r post. O gymharu a'r flwyddyn flaenorol, benthyciwyd mwy o gopïau unigol ac ychydig yn llai o setiau llawn. Yr ydym yn awr yn derbyn yn rheolaidd gopïau o Ddramau diweddaraf a gyhoeddir gan y Mri French a'r Mri Evans. Gellir benthycu'r copïau hyncyfleuster a werthfawrogir yn fawr gan y benthycwyr.

Dengys profiad mai'r merched sy'n dal i ymddiddori fwyaf mewn Drama Amatur, ac mae yna brinder dynion. Wrth ymholi am ddramau gofynnir yn fynych am nai lle ceir mwy o ferched an dynion yn gymeriadau—tair merch

---

am un dyn hwyrach. Ychydig iawn o gymdeithasau sy'n gallu llwyfannu drama gyda mwya na thri neu bedwar o ddyuon yn y cast, ond fel arfer mae digon o ferched i'w cael.

Oherwydd hyn mae'n anoddach cael setiau newydd i'w benthyg, gan fod mwya o ddyuon nag o ferched gan amlaf i'w cael ar y llwyfan profesyfynol, o'r lle tarddodd y dramau.

Ychwanegir at yr anhawster oherwydd fod rhai o'r dramau modern yn delio a phynciau zhy faterol i'w dangos i'z gynulleidfa amatur.

**Rhoi bethyg offer llwyfan**

<i>Llenni</i>	<i>Uncleau Goleuo</i>	<i>Anrhywiol</i>
45	17	7

(thywbeth yn debyg i'r nifer y llyncedd).

**Cyngor Drama Cymru**

**Cystadleuaeth Ysgrifennu Drama Un Act**

Cychwynodd Cyngor Drama Cymru (un o bwyllgorau y Cyngor Gwasanaeth Cymdeithasol) fentr newydd dewy llwyfannu pedair o'r dramau newydd gorau a ddaeth i'r gystadleuaeth. Cafwyd un-ar-hugain o ddramau (yn Saesneg a Chymraeg) gan ddrmodwyr o naw o siroedd yng Nghymru yn y gystadleuaeth, a dyma'r bedair orau:—

“Modern Version” gan T. C. Thomas (Brycheiniog).

“Wrth fynd Heibio” gan J. R. Evans (Ceredigion).

“Postmarked up to the Off” gan Grafton Radcliffe (Morgannwg).

“The Mothers” gan Rae Shirley (Mynwy).

Twy gydweithrediad Pwyllgorau Drama y Siroedd hyn llwyfanwyd y dramau gan gwmnïau adnabyddus o bob sir—Chwaraewyr St. Cyndâr; Cwmni Sir Aberteifi; Chwaraewyr y Castell, Penybont-ar-Ogwr a Chymdeithas Ddrama Amddiffyn Sifil, Casnewydd. Mawr yw ein dyled i'r cwmnïau hyn am berfformiadau rhagorol.

Llwyfanwyd y dramau yn y Coliseum Theatre, Aberdâr, nos Sadwrn, Hydref 15, a dyfarnodd y beirniad, Mr. Gwynne D. Evans (Sir Gaerfyrddin) y Wobr Gyntaf i Ddrama Ceredigion, a berfformiwyd yn Gymraeg.

Y Doctor Oscar Williams (Llanelli), Cadeirydd newydd y Cyngor Drama, oedd llywydd yr wyl ac ef a gyflwynodd y gwobrau i'r dramodwyr.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu trenu Gwyl gyffelyb eto y flwyddyn nesaf.

**Cyd-weithredu a Sefydliadau Eraill**

Arwahan i'r cyd-weithredu arerfol gyda sefydliadau Drama Sirol ynglyn materion fel Llyfrgell ac Offer, fe gynrychiolir yr Adran Ddrama ar Bwyllgor Rhanbarthol Cynghrrair Drama Prydain, sy'n cyfarfod yn y swyddfa hon. Cydweithredir yn ogystal gyda Chynghrair Drama Morgannwg, sydd hefyd yn cynnal ei bwyllgor gwaith yn 2, Cathedral Road.

### **CRONFA APÊL AWR Y PLANT Y B.B.C.**

Mae'r B.B.C. yn ymddiried ynddom y dasg o ddsbarthu yng Nghymru â swm blynyddol o Gronfa Apêl Nadolig Awr y Plant ar radio saina theledu, i blant methodig neu afiach, neu o aelwydydd anffortunos. Yn ustod y flwyddyn dosbarthwyd £1,321 i dros 1,120 o blant. Drachefn cyflwynwn ein diolchgarwch i Ysgrifenyddion Cynghorau Gwlad, Swyddfeydd Cynghori Dinasyddion, Swyddogion Meddygol a Swyddogion Addysg, ac aelodau'r staff a'r Unigolion, a fu'n ein cynorthwyo i ddsbarthu'r Gronfa hon.



## INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT FOR

### EXPENDITURE

<i>Year ended</i> 31st March, 1960	£ s. d.		£ s. d.	£ s. d.
12,994	0 0	Salaries .. .. .	12,879 15 11	
171	0 0	Superannuation .. .. .	190 10 3	
518	0 0	National Insurance .. .. .	476 1 1	
				13,546 7 3
2,102	0 0	Travelling and Subsistence .. .. .	1,948 15 5	
84	0 0	Audit Fee .. .. .	84 0 0	
19	0 0	Office Cleaning .. .. .	28 12 0	
315	0 0	Printing and Stationery .. .. .	392 5 4	
342	0 0	Postages, Telephones and Telegrams .. .. .	355 2 8	
238	0 0	Lighting and Heating .. .. .	287 14 11	
247	0 0	Rates and Ground Rent .. .. .	258 0 4	
23	0 0	Repairs and Renovations .. .. .	240 19 11	
65	0 0	General Insurances .. .. .	67 17 11	
13	0 0	Carriage and Haulage .. .. .	14 1 1	
5	0 0	Proportion of Affiliation Fees to National Council of Social Service .. .. .	10 10 0	
13	0 0	Drama Library and Equipment .. .. .	3 6 8	
11	0 0	Advisory Visits, Schools and Courses .. .. .	10 10 0	
156	0 0	Drama Festival .. .. .	36 14 5	
7	0 0	Conferences .. .. .	—	
73	0 0	Bank Charges .. .. .	62 0 0	
5	0 0	Donation Refunded .. .. .	—	
44	0 0	Miscellaneous .. .. .	66 13 4	
—	—	Motor Car at Cost .. .. .	950 0 0	
		<i>Debit:</i> Grant from Development Commission	500 0 0	550 0 0
608	0 0	Balance, Excess of Income over Expenditure .. .. .	82 2 8	

£18,033 0 0

£18,025 13 11

THE YEAR ENDED 31st MARCH, 1961

Year ended 31st March, 1960		INCOME				
£	s. d.		£	s. d.	£	s. d.
GRANTS FOR SPECIFIC PURPOSES:						
5,200	0 0	Development Commission .. .. .	4,400	0 0		
1,500	0 0	Ministry of Education .. .. .	1,500	0 0		
4,400	0 0	Glamorgan County Council .. .. .	4,800	0 0		
350	0 0	Cardiffshire County Council .. .. .	350	0 0		
Local Authorities: Grants towards Old						
130	0 0	People's Week .. .. .	105	0 0		
500	0 0	Coal Industry Social Welfare Organisation	500	0 0		
—		Standing Conference for Wales of Voluntary Youth Organisations .. .. .	400	0 0		
<hr/>			<hr/>			
12,080	0 0				12,055	0 0
OTHER INCOME:						
1,737	0 0	Subscriptions and Donations .. .. .			1,485	16 6
1,311	0 0	Donations from Social Service Clubs ..			1,469	19 8
Grants:						
670	0 0	Ministry of Health per National Council of Social Service .. .. .	670	0 0		
200	0 0	National Council of Social Service for services rendered .. .. .	200	0 0		
1,000	0 0	Carnegie United Kingdom Trust .. .. .	1,000	0 0		
<hr/>			<hr/>		1,870	0 0
72	0 0	Affiliation Fees .. .. .			72	18 6
26	0 0	Cardiff Rural District Council .. .. .			26	5 0
50	0 0	Radnorshire County Council .. .. .			50	0 0
11	0 0	Llantrisant and Llantwit Fardre Rural District Council ..			10	10 0
11	0 0	Neath Rural District Council .. .. .			10	10 0
150	0 0	Agency Fees .. .. .			150	0 0
178	0 0	Administration Costs and Fees recovered .. .. .			132	18 10
158	0 0	Loan of Plays and Equipment .. .. .			221	8 11
261	0 0	Rent: Sub-letting .. .. .			257	0 0
118	0 0	Interest on Investments .. .. .			118	9 6
—		Flood Damage Insurance Claim .. .. .			95	17 0
<hr/>			<hr/>			
£18,033	0 0				£18,025	13 11

SUBSCRIPTIONS AND DONATIONS FOR THE YEAR ENDED  
31st MARCH, 1961

				£	s.	d.
Lt.-Col. The Hon. R. E. Beaumont .. .. .				2	2	0
The Hon. Anthony Berry .. .. .				2	2	0
The Hon. J. H. Bruce .. .. .				5	0	0
Mr. G. T. Cantlay .. .. .				2	2	0
Sir John Cecil-Williams .. .. .				1	1	0
Mr. A. D. Russell Clarke .. .. .				2	2	0
Mr. C. N. D. Cole .. .. .				7	7	0
Col. W. R. Crawshay .. .. .				16	6	7*
Mr. D. J. Davies .. .. .				81	12	8*
Mrs. Leonora Davies .. .. .				1	1	0
Margaret Davies Charity Trustees .. .. .				25	0	0
Gwendoline Davies Charity Trustees .. .. .				25	0	0
The Hon. Islwyn Davies .. .. .				1	1	0
Miss Rachel Davies .. .. .				1	1	0
Mrs. S. O. Davies .. .. .				2	2	0
Mr. Selwyn Davies .. .. .				1	1	0
Mr. J. H. Twiston Davies .. .. .				1	0	0
Mr. W. A. T. Twiston Davies .. .. .				3	5	4*
Miss O. S. Dawkins .. .. .				2	2	0
Mrs. M. L. Englehart .. .. .				1	0	0
Dr. Griffith Evans .. .. .				3	3	0
Dr. William George .. .. .				1	1	0
Mr. D. Gibson-Watt, M.P. .. .. .				1	0	0
Dr. Wyn Griffith .. .. .				1	1	0
Mr. S. C. Harris .. .. .				2	2	0
Mr. J. K. Harvie .. .. .				1	0	0
Miss A. Hills .. .. .				5	5	0
Mr. T. I. Jeffreys Jones .. .. .				1	1	0
Dr. Dilwyn John .. .. .				1	0	0
Mrs. D. B. Jones .. .. .				1	1	0
Mr. D. L. Jones .. .. .				1	0	0
Sir Wynne Cemlyn Jones .. .. .				1	1	0
Mr. W. J. Jones .. .. .				1	1	0
Mrs. G. Levy .. .. .				1	1	0
Mrs. L. Mansel Lewis .. .. .				1	14	3*
Sir Godfrey Llewellyn, Bart. .. .. .				2	2	0
Mr. H. Lloyd .. .. .				1	1	0



SUBSCRIPTIONS AND DONATIONS—*continued*

	£	s.	d.
Lady Megan Lloyd George .. .. .	1	1	0
Miss A. F. Macdonald .. .. .	1	1	0
Mr. H. B. Meredith .. .. .	3	8	7*
Lord Merthyr .. .. .	5	5	0
Sir Thomas Meyrick .. .. .	5	0	0
Dr. David Monger .. .. .	3	8	7*
Mr. John Morgan .. .. .	5	5	0
Mr. A. B. Oldfield Davies .. .. .	2	0	0
Mr. P. F. Parkinson .. .. .	2	2	0
Mr. J. Denning Pearson .. .. .	3	8	7*
The Earl of Plymouth .. .. .	5	5	0
Col. Evan Powell .. .. .	2	2	0
Mr. D. S. Pugh .. .. .	5	5	0
Alderman W. J. Saddler .. .. .	2	2	0
Mrs. Dorothy Elliot Seager .. .. .	1	1	0
Sir Leighton Seager, Bart. .. .. .	2	2	0
Mrs. M. Sessions .. .. .	5	0	0
Miss Grace H. Smith .. .. .	5	0	0
Dr. W. H. Smith .. .. .	4	0	0
Principal Anthony Steel .. .. .	2	2	0
Sir Geoffrey Summers .. .. .	3	5	4*
Sir W. J. C. Thomas, Bart. .. .. .	2	2	0
Mr. Wynford Vaughan Thomas .. .. .	2	0	0
Mr. A. A. Thorpe .. .. .	2	2	0
Mr. G. A. Watson .. .. .	1	1	0
Mr. D. C. Watts .. .. .	1	0	0
Mr. Frank Webber .. .. .	1	1	0
Sir Robert Webber .. .. .	8	11	5*
Sir Wynn P. Wheldon .. .. .	10	0	0
Mr. Owen Williams .. .. .	10	10	0

\* *Covenanted*

**Firms and Business Houses**

Aberdare Cables Ltd. .. .. .	10	0	0
Aero-Zipp Fasteners Ltd. .. .. .	2	2	0
Aluminium Corporation Ltd. .. .. .	3	3	0
Associated Electrical Industries Ltd. .. .. .	3	3	0
Associated Ethyl Co. Ltd. .. .. .	5	5	0
B.P. Refinery (Llandarcy) Ltd. .. .. .	10	0	0
J. Bibby & Sons Ltd. .. .. .	10	0	0
Boots Cash Chemists (Western) Ltd. .. .. .	5	5	0
S. A. Brain & Co. Ltd. .. .. .	1	1	0



SUBSCRIPTIONS AND DONATIONS—*continued*

					£	s. d.
Singer Sewing Machine Co. Ltd.	..	..	..	..	5	5 0
W. H. Smith & Son Ltd.	..	..	..	..	5	5 0
Spillers Ltd.	..	..	..	..	3	3 0
Star Brick & Tile Co. Ltd.	..	..	..	..	1	1 0
Steel Company of Wales Ltd.	..	..	..	..	250	0 0*
John Summers & Sons Ltd.	..	..	..	..	10	0 0*
Richard Thomas & Baldwins Ltd.	..	..	..	..	50	0 0
Thomas & Evans Ltd.	..	..	..	..	10	10 0
E. Turner & Sons Ltd.	..	..	..	..	5	5 0
Unilever Ltd.	..	..	..	..	50	0 0
Thos. W. Ward Ltd.	..	..	..	..	5	5 0
Whitbread & Co., Ltd.	..	..	..	..	3	3 0
W. D. & H. O Wills	..	..	..	..	21	0 0
Wilts. United Dairies Ltd.	..	..	..	..	2	2 0
F. W. Woolworth & Co. Ltd.	..	..	..	..	25	0 0

\* *Covenanted*

**Banks**

Barclays Bank Ltd.	..	..	..	..	50	0 0
Lloyds Bank Ltd.	..	..	..	..	50	0 0
Midland Bank Ltd.	..	..	..	..	50	0 0
National Provincial Bank Ltd.	..	..	..	..	50	0 0
Westminster Bank Ltd.	..	..	..	..	50	0 0

**Trade Unions and Voluntary Organisations**

Iron & Steel Trades Confederation	..	..	..	..	25	0 0
National Union of General & Municipal Workers	..	..	..	..	1	1 0
Transport & General Workers Union (North Wales)	..	..	..	..	2	2 0
Transport & General Workers Union (South Wales)	..	..	..	..	10	0 0
Union of Shop, Distributive & Allied Workers	..	..	..	..	5	5 0
Workers Travel Association	..	..	..	..	2	2 0

**Old People's Welfare Work**

County and Borough Councils :

Glamorgan	..	..	..	..	50	0 0
Merthyr Tydfil	..	..	..	..	10	0 0
Monmouthshire	..	..	..	..	25	0 0
Newport	..	..	..	..	20	0 0





